Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne ●
Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF

☎ 01766 832 398 ✉ clerc@cyngortrefffestiniog.cymru

# Rhaglen Pwyllgor Mwynderau

**•20 / 11 / 2023 •7.00yh • Siambr y Cyngor ac Ar-lein**

---

**DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN 1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A]**

**NODER – mi fydd Cyngor Tref Ffestiniog yn cwrdd ar-lein drwy feddalwedd Zoom, fel y caniateir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

**YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR CYFARFOD MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG**

Drwy feddalwedd Zoom ar y ddolen ganlynol:

https://us02web.zoom.us/j/84970377672?pwd=MWY4cE5FKzZ3WjZHREs3ekk4VFhmUT09

Meeting ID: 849 7037 7672
Passcode: 329286

**A hefyd wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog.**

**NOS LUN 20fed Tachwedd 2023 AM 7.00 YR HWYR**

AT GADEIRYDD AC AELODAU PWYLLGOR MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG

FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU PWYLLGOR MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG


**MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD I FYNYCHU'R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO**

Noder y bydd y cyfarfod yn cael ei recordio oherwydd yr angen i gofnodi ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | | **Derbyn Ymddiheuriadau** |
| | | |
| 2 | | **Datganiad o Ddiddordeb**<br>Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol angen ei llofnodi yn y cyfarfod neu ei hanfon at y Clerc neu'r Dirprwy Glerc pan yn briodol. |
| | | |
| 3 | | **Cyfranogiad y Cyhoedd**<br>Ystyried ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes a gynhwysir ar yr agenda. (Mwyafswm 10 munud). |
| | | |
| | | |
| 4 | | **Cofnodion**<br>Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Mwynderau a gynhaliwyd ar 16eg Hydref 2023. |
| 5 | | **Caeau Chwarae**<br>Arolwg misol Tachwedd 2023<br>Derbyn crynodeb o archwiliadau misol Helen Jones o'r caeau chwarae. |
| | | |
| 6 | | **Llwybrau Cyhoeddus** |
| | | Derbyn adroddiadau misol gan John Evans, Cerddwr Llwybrau. Ebyst gyda lluniau John wedi eu hanfon ar wahân.<br><br>Mae John hefyd wedi anfon ebost at y Cyngor ynglŷn â'r llinellau melyn yn Nholrhedyn, ac mae hwnnw wedi ei anfon atoch gyda'r agenda hon hefyd. |
| | | |
| 7 | | **Rhestr Waith y Swyddog Cynnal a Chadw**<br>Derbyn adroddiad ar waith y Swyddog Cynnal a Chadw.<br>• Bwrdd llechen ar gyfer y Berllan<br>• Sleid Cae Manod<br>Ceir diweddariad llafar yn y cyfarfod o ran cynnydd ar y rhestr waith. |
| | | |
| 8 | | **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 / Town and Country Planning Act 1990**<br>Rhif Cais / Application No.: C23/0846/03/DT<br>Lleoliad / Location: 3, Penhafodlas, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3AZ<br>Bwriad / Proposal: Modurdy domestig arfaethedig.<br>Proposed domestic garage.<br><br>https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=getApplication&id=34669&language=cy |
| | | |
| 9 | | **Meinciau Gardd Encil**<br>Ystyried sefyllfa meinciau Gardd Encil. |

| | | |
|---|---|---|
| **10** | | **Cae Tanygrisiau**<br>Ystyried ebost gan Gethin Vaughan Jones, dyddiedig 1af o Dachwedd 2023, copi ynghlwm. |
| **11** | | **MUGA yn y Parc**<br>Rhybudd o Gynnig gan Y Cynghorydd Morwenna Pugh:<br>Gofynnaf i'r Cyngor Tref ystyried cael Ardal Chwaraeon Aml-ddefnydd (MUGA) ar gyfer y Parc. |
| **12** | | **Hen Flwch Ffôn ger y Meirion**<br>Ystyried ebost dyddiedig 25 Hydref 2023 gan landlord presennol y Meirion yn dweud bod pobl yn achosi trafferthion a delio cyffuriau yn yr hen flwch ffôn y tu allan i'r Meirion ac yn gofyn am gael gwared â'r blwch ffôn oddi yno. |
| **13** | | **Rowndabowt Cae Bryn Coed**<br>Ystyried dyfynbris i drwsio'r rowndabowt sydd wedi torri ar Gae Bryn Coed. Mae dau bris ynghlwm – un y mae GL Jones wedi ei gael gan wneuthurwr yr offer **am y darn yn unig**, ac un pe tasen nhw'n gwneud gwaith i drwsio'r offer. PDF Dyfynbris 1 a Dyfynbris 2 ynghlwm. |
| **14** | | **Caffi'r Pafiliwn**<br>Adroddiad ar fil trydanwr, copi ynghlwm. |
| **15** | | **Heol Leeds – Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig**<br>Derbyn llythyr a chynllun gan y Cyngor Sir yn disgrifio cyfyngiadau parcio arfaethedig yn nhop Heol Leeds, copïau ynghlwm. |
| **16** | | **Ebost gan Barc Cenedlaethol Eryri**<br>Ystyried ebost gan Gwenno Jones, Parc Cenedlaethol Eryri:<br><br>*Annwyl Glerc,*<br><br>*Fy enw i yw Gwenno, ac rwy'n cysylltu yn rhinwedd fy rôl fel Swyddog Ymgysylltu Cymunedol Parc Cenedlaethol Eryri. Mae Angela (Rheolwr Partneriaethau APCE) a minnau yn awyddus i gyfarfod â chi er mwyn cyflwyno ein hunain, yn ogystal â chyfle i rannu Cynllun Eryri gyda chi, sef cynllun rheoli APCE.*<br><br>*Mae Cynllun Rheolaeth y Parc yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio dyfodol ein Parc a sicrhau ei ddatblygiad cynaliadwy. Rydym yn gwerthfawrogi mewnbwn a safbwyntiau'r gymuned leol yn fawr, a chredwn y bydd eich mewnbwn chi ac aelodau'r Cyngor Cymuned yn cyfrannu'n fawr at lwyddiant y cynllun hwn.*<br><br>*Rydym yn deall bod eich amser yn werthfawr, ac rydym yn hyblyg o ran amseroedd a lleoliad felly rhowch wybod beth fyddai orau i chi.*<br><br>*Byddwn yn eich hardal chi ar y dyddiadau canlynol:-*<br><br>***Dydd Mawrth, 5ed o Ragfyr (9:30-4yh)*** |

| | | |
|---|---|---|
| | | ***Dydd Mawrth, 19eg o Ragfyr (9:30-4yh)***<br><br>*Rydym yn hyblyg o ran amser a lleoliad felly rhowch wybod beth sydd orau i chi, boed yn gaffi, swyddfa neu adref. Oes modd cysylltu yn ôl erbyn y 24ain o Dachwedd os gwelwch yn dda?*<br><br>*Edrychwn ymlaen at y cyfle i gwrdd â chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i gysylltu.* |



Sioned Graham-Cameron
Clerc y Dref

DYDDIAD 14eg Hydref 2023.